



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Hoffwn eich diweddarau am y sefyllfa gyfredol o ran trefniadau'r ysgol o ran y Coronavirus. Rydym yn cael ein harwain yn gyson gan wybodaeth newydd gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Ceredigion.

Yn dilyn cyngor pellach gan yr Awdurdod, gofynnwn yn garedig i chi gadw at y canllawiau canlynol :

- Os yw eich plentyn yn dangos symptomau o Coronavirus bydd angen i chi eu cadw adref.
- Mae'r cyngor am hunan-ynysu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ychydig yn annelwig o ran yr effaith ar bob unigolyn yn y cartref. Gan ein bod yn teimlo bod tebygolrwydd uchel y bydd plant/rheini yn anorfod yn cymysgu â'i gilydd yn ystod cyfnod hunan-ynysu, **rydym yn argymhell y dylai'r holl bobl sy'n byw yn yr un tŷ hunan-ynysu am 7 diwrnod calendr**. Gallai'r cyngor hwn newid yn y diwrnodau nesaf a byddwn yn eich diweddarau yn gyson.
- Bydd ein trefniadaeth dyddiol yn yr ysgol yn parhau o ran addysg, ond byddwn yn rheoli risgiau o ran atal teithiau ac achlysuron cyhoeddus

Os oes gennych unrhyw bryder mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â rhannu eich pryderon drwy wefanau cymdeithasol ond drwy gysylltu gyda ni'n uniongyrchol.

Byddwn yn rhannu canllaw i chi o ran sut i gael mynediad at hwb 360 yn ystod y diwrnodau nesaf er mwyn ichi gael mynediad at adnoddau i gynorthwyo'ch plentyn i ddysgu yn y cartref, pe cyfyd yr angen am hynny.

## **Trefniadau dod â phlant i'r ysgol yn y bore**

**Yn sgîl datblygiadau gyda'r Coronafeirws rydym wedi derbyn cyfarwyddyd gan yr Awdurdod Addysg i reoli mynediad rhieni / gwarcheidwaid i adeilad yr ysgol. O ddydd Mawrth, Mawrth 17eg mi fyddwn yn derbyn y plant wrth brif ddrws yr ysgol neu ddrws y Meithrin ac mi fydd staff yr ysgol yn sicrhau fod disgyblion yn cyrraedd eu dosbarthiadau yn ddiogel. Mi fydd trefniadau casglu plant o'r ysgol yr un fath ag arfer.**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Carers,

I would like to update you on the current situation regarding the schools' arrangements for Coronavirus. We are constantly being guided by new information from the Welsh Government, Public Health Wales and Ceredigion Council.

Following further advice from the Authority, we kindly ask that you adhere to the following guidelines:

- If your child shows symptoms of Coronavirus you will need to keep them at home.
- Advice on self-isolation from Public Health Wales is a little vague as regards to all individuals living in the same household. As we feel that there is a high probability that children / parents will inevitably mix with each other during a period of self-isolation, **we recommend that all people living in the same house should self-isolate for 7 calendar days**. This advice may change in the coming days and we will keep you updated.
- Our daily routine and education in school will continue, but we will manage the risks by preventing trips and public events

If you have any concerns please do not hesitate to contact us at school. We kindly ask you not to share your concerns through social websites but by contacting us directly.

During the next few days we will be sharing information and guidelines on how to access the 360 Hub , so that you will be able to access resources to help your child learn at home, should the need arise.

### **Arrangements for bringing children to school in the morning**

**In light of the Coronavirus situation we have received guidance from the Education Authority to manage the access of parents / guardians to the school building. From Tuesday, March 17<sup>th</sup> we will be receiving the pupils at the main school door or the Meithrin door and staff will ensure pupils arrive at their classrooms safely. Arrangements for collecting pupils at the end of the day will remain the same as usual.**

**R C Williams**

**Pennaeth / Headteacher**